*Statws Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) Act yn cynnwys darpariaethau sy'n rhagolygol.*

*Newidiadau i ddeddfwriaeth: Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 16 Ebrill 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details) View outstanding changes*

- (g) adran 17(1) (pŵer i addasu deddfwriaeth sy'n ymwneud â'r polisi amaethyddol cyffredin);
  - (h) adran 18(1) (pŵer i addasu deddfwriaeth sy'n ymwneud â chymorth ar gyfer gwenynyddiaeth);
  - (i) adran 19(1) (pŵer i addasu deddfwriaeth sy'n ymwneud â chymorth ar gyfer datblygu gwledig);
  - (j) adran 23(1) (pŵer i addasu deddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir sy'n ymwneud ag ymyrraeth yn y farchnad gyhoeddus neu gymorth ar gyfer storio preifat);
  - (k) adran 25(2) (darparu gwybodaeth sy'n ymwneud â'r gadwyn gyflenwi bwyd-amaeth);
  - (l) adran 27(2) (darparu gwybodaeth sy'n ymwneud â gweithgareddau perthnasol);
  - (m) adran 32(1) (gorfodi gofynion gwybodaeth);
  - (n) adran 34(1) (safonau marchnata ar gyfer cynhyrchion amaethyddol);
  - (o) adran 34(6) (cynhyrchion amaethyddol sy'n berthnasol i safonau marchnata);
  - (p) adran 35(1) (dosbarthiad carcassau);
  - (q) adran 53 (pŵer i ddiwygio adrannau 51 a 52; ond gweler is-adrannau (2) i (7) o adran 53 am ofynion pellach mewn perthynas ag offeryn statudol sy'n cynnwys rheoliadau o dan yr adran honno).
- (8) Mae is-adran (6) hefyd yn gymwys i offeryn statudol sy'n cynnwys rheoliadau o dan unrhyw ddarpariaeth nas crybwyllir yn is-adran (7), pan fo'r rheoliadau yn addasu unrhyw ddarpariaeth mewn deddfwriaeth sylfaenol.
- (9) Mae unrhyw offeryn statudol arall sy'n cynnwys rheoliadau o dan y Ddeddf hon yn ddarostyngedig i'w ddiddymu yn unol â phenderfyniad gan Senedd Cymru.

#### **Gwybodaeth Cychwyn**

**I73** A. 50 mewn grym ar 18.8.2023, gweler **a. 56(1)(b)**

## **51 Ystyr “amaethyddiaeth” a chyfeiriadau perthnasol**

- (1) Yn y Ddeddf hon, ystyr “amaethyddiaeth” yw—
- (a) garddwriaeth;
  - (b) ffermio cnydau âr;
  - (c) ffermio gwartheg godro;
  - (d) cadw a bridio da byw;
  - (e) defnyddio tir fel tir pori;
  - (f) defnyddio tir fel coetir fferm neu ar gyfer amaeth-goedwigaeth;
  - (g) amaethyddiaeth mewn amgylchedd a reolir;
  - (h) tyfu fel arall blanhigion i'w gwerthu, neu ar gyfer gwerthu rhan o blanhigyn;
  - (i) cynnal tir mewn cyflwr sy'n ei wneud yn addas ar gyfer gweithgaredd a restrir ym mharagraffau (a) i (h).

- (2) Yn is-adran (1)—

mae “da byw” yn cynnwys, ymysg pethau eraill, unrhyw anifail a gedwir i gynhyrchu bwyd, diod, olewau, ffibrau neu ledrau, neu i bori tir;

*Statws Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) Act yn cynnwys darpariaethau sy'n rhagolygol.*

*Newidiadau i ddeddfwriaeth: Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 16 Ebrill 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details) View outstanding changes*

ystyr “amaethyddiaeth mewn amgylchedd a reolir” yw tyfu planhigion mewn ecosystem gaeedig sy'n caniatáu i amrywiolion amgylcheddol (gan gynnwys tymheredd, lleithder, golau a maethynnau) gael eu rheoli.

- (3) Mae cyfeiriadau yn y Ddeddf hon at farchnadoedd amaethyddol, busnesau amaethyddol, cynhyrchwyr amaethyddol a chynhyrchion amaethyddol i'w dehongli yn unol ag is-adran (1).

#### Gwybodaeth Cychwyn

I74 A. 51 mewn grym ar 18.8.2023, gweler [a. 56\(1\)\(b\)](#)

### 52 Ystyr “gweithgaredd ategol”

Yn y Ddeddf hon, ystyr, “gweithgaredd ategol” yw—

- (a) gweithredu, ar dir a ddefnyddir ar gyfer amaethyddiaeth—
- i greu a rheoli cynefinoedd, neu at ddibenion eraill sy'n ymwneud â chadwraeth natur,
  - i liniaru ac addasu i newid yn yr hinsawdd, neu
  - i gynnal a gwella gwytnwch ecosystemau;
- (b) gwerthu, marchnata, paratoi, pecynnu, prosesu neu ddsbarthu cynhyrchion sy'n deillio o amaethyddiaeth.

#### Gwybodaeth Cychwyn

I75 A. 52 mewn grym ar 18.8.2023, gweler [a. 56\(1\)\(b\)](#)

### 53 Pŵer i ddiwygio adrannau 51 a 52

- (1) Caiff Gweinidogion Cymru ddiwygio adrannau 51 a 52 drwy reoliadau.
- (2) Cyn gosod offeryn statudol drafft sy'n cynnwys rheoliadau o dan yr adran hon gerbron Senedd Cymru (at ddibenion adran 50(6)), rhaid i Weinidogion Cymru gymryd y camau a bennir yn is-adrannau (3) a (4).
- (3) Rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori ar ddrafft arfaethedig o'r rheoliadau ag unrhyw bersonau y mae'n ymddangos yn debygol i Weinidogion Cymru y bydd y rheoliadau yn effeithio arnynt.
- (4) Rhaid i Weinidogion Cymru—
- rhoi cyfnod o 12 wythnos o leiaf i'r personau hynny i gyflwyno sylwadau ar y rheoliadau drafft arfaethedig,
  - ystyried unrhyw sylwadau a gyflwynir o fewn y cyfnod hwnnw, ac
  - cyhoeddi crynodeb o'r sylwadau hynny.
- (5) Pan fo Gweinidogion Cymru yn gosod offeryn statudol drafft sy'n cynnwys rheoliadau o dan yr adran hon gerbron Senedd Cymru at ddibenion adran 50(6), rhaid iddynt gynnwys gyda'r drafft ddatganiad sydd—
- yn pennu a oes gwahaniaethau rhwng y rheoliadau drafft yr ymgynghorwyd arnynt o dan is-adran (3) a rheoliadau o dan yr adran hon a gynhwysir yn yr offeryn statudol drafft sy'n cael ei osod, a

*Statws Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) Act yn cynnwys darpariaethau sy'n rhagolygol.*

*Newidiadau i ddeddfwriaeth: Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 16 Ebrill 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details) View outstanding changes*

- (b) os oes gwahaniaethau rhwng y rheoliadau drafft yr ymgynghorwyd arnynt a'r rheoliadau a gynhwysir yn yr offeryn statudol drafft sy'n cael ei osod, yn rhoi manylion ynghylch y gwahaniaethau hynny.
- (6) Ni chaniateir i offeryn statudol drafft sy'n cynnwys rheoliadau o dan yr adran hon gael ei gymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru yn unol ag adran 50(6) tan ar ôl i'r cyfnod o 40 niwrnod, gan ddechrau â'r diwrnod y gosodir yr offeryn statudol drafft, ddod i ben.
- (7) Wrth gyfrifo a yw cyfnod o 40 niwrnod wedi dod i ben at ddibenion is-adran (6), rhaid diystyru unrhyw adeg pan fo Senedd Cymru wedi ei diddymu neu'n cymryd toriad am fwy na phedwar diwrnod.

#### Gwybodaeth Cychwyn

I76 A. 53 mewn grym ar 18.8.2023, gweler [a. 56\(1\)\(b\)](#)

## 54 Dehongli arall

Yn y Ddeddf hon—

mae “addasu” (“*modify*”) yn cynnwys diwygio, dirymu a diddymu (ac mae ymadroddion perthynol i'w dehongli yn unol â hynny);

ystyr “annedd breifat” (“*private dwelling*”) yw hynny o unrhyw dir sy'n cynnwys—

(a) adeilad neu strwythur arall a ddefnyddir yn gyfan gwbl neu'n bennaf fel annedd breifat, neu

(b) gardd, iard, garej preifat neu dŷ allan a fwynheir gydag adeilad neu strwythur o'r fath;

ystyr “deddfwriaeth sylfaenol” (“*primary legislation*”) yw—

(a) Mesur Cynulliad;

(b) Deddf gan Senedd Cymru;

(c) Deddf gan Senedd y Deyrnas Unedig;

ystyr “is-ddeddfwriaeth” (“*subordinate legislation*”) yw offeryn a wneir o dan ddeddfwriaeth sylfaenol neu o dan ddeddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir;

mae “planhigion” (“*plants*”) yn cynnwys ffwng;

ystyr “y Rheoliad CMO” (“*the CMO Regulation*”) yw Rheoliad (EU) Rhif 1308/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 17 Rhagfyr 2013 sy'n sefydlu cyd-drefniadaeth y marchnadoedd mewn cynhyrchion amaethyddol;

mae “swyddogaethau” (“*functions*”) yn cynnwys pwerau a dyletswyddau.

#### Gwybodaeth Cychwyn

I77 A. 54 mewn grym ar 18.8.2023, gweler [a. 56\(1\)\(b\)](#)

## 55 Diwygiadau canlyniadol a diddymiadau etc.

- (1) Mae Atodlen 2 (sy'n gwneud mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol etc. sy'n ymwneud â Deddf Amaethyddiaeth 2020 (p. 21) a Deddfau eraill) yn cael effaith.

*Statws Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) Act yn cynnwys darpariaethau sy'n rhagolygol.*

*Newidiadau i ddeddfwriaeth: Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 16 Ebrill 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details) View outstanding changes*

(2) Mae Atodlen 3 (sy'n diwygio'r Rheoliad CMO) yn cael effaith.

#### Gwybodaeth Cychwyn

**I78** A. 55(1) mewn grym ar 17.10.2023 at ddibenion penodedig, gweler **a. 56(3)**

**I79** A. 55 mewn grym ar 17.10.2023 i'r graddau nad yw eisoes mewn grym gan **O.S. 2023/1092, ergl. 2(e)**

## 56 Dod i rym

- (1) Daw'r darpariaethau a ganlyn i rym drannoeth y diwrnod y mae'r Ddeddf hon yn cael y Cydsyniad Brenhinol—
  - (a) Rhan 4at y dibenion o wneud rheoliadau o dan adran 32 o Ddeddf Coedwigaeth 1967 (p. 10);
  - (b) y Rhan hon, ac eithrio adran 55 ac Atodlenni 2 a 3.
- (2) Daw'r darpariaethau a ganlyn i rym ar ddiwedd y cyfnod o ddau fis sy'n dechrau â'r diwrnod y mae'r Ddeddf hon yn cael y Cydsyniad Brenhinol—
  - (a) Rhan 1;
  - (b) Pennod 1 o Ran 2;
  - (c) Pennod 2 o Ran 2;
  - (d) Rhan 5.
- (3) Daw'r darpariaethau a ganlyn o Atodlen 2, ac adran 55 i'r graddau y mae'n ymwneud â'r darpariaethau hynny, hefyd i rym ar ddiwedd y cyfnod o ddau fis sy'n dechrau â'r diwrnod y mae'r Ddeddf hon yn cael y Cydsyniad Brenhinol—
  - (a) paragraff 1(5)(b) at ddibenion cymhwyso adran 53(5)(a) o Ddeddf Amaethyddiaeth 2020 (p. 21) mewn perthynas â Rhan 1 o Atodlen 5 i'r Ddeddf honno;
  - (b) paragraff 1(9) at ddibenion diddymu Rhan 1 o Atodlen 5 i Ddeddf Amaethyddiaeth 2020;
  - (c) paragraff 2;
  - (d) Rhan 2.
- (4) Ac eithrio fel a ddarperir gan is-adrannau (1) i (3), daw darpariaethau y Ddeddf hon i rym ar ddiwrnod a bennir gan Weinidogion Cymru mewn gorchymyn a wneir drwy offeryn statudol.
- (5) Caiff gorchymyn o dan is-adran (4)—
  - (a) gwneud darpariaeth drosiannol neu ddarfodol neu ddarpariaeth arbed;
  - (b) pennu diwrnodau gwahanol at ddibenion gwahanol.

#### Gwybodaeth Cychwyn

**I80** A. 56 mewn grym ar 18.8.2023, gweler **a. 56(1)(b)**

## 57 Enw byr

Enw byr y Ddeddf hon yw Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023.

---

*Statws Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) Act yn cynnwys darpariaethau sy'n rhagolygol.*  
*Newidiadau i ddeddfwriaeth: Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 16 Ebrill 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details) View outstanding changes*

---

**Gwybodaeth Cychwyn**

**181** A. 57 mewn grym ar 18.8.2023, gweler **a. 56(1)(b)**



*Statws Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) Act yn cynnwys darpariaethau sy'n rhagolygol.*

*Newidiadau i ddeddfwriaeth: Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 16 Ebrill 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details) View outstanding changes*

## ATODLEN 1

(a gyflwynir gan adran 34)

### CYNHYRCHION AMAETHYDDOL SY'N BERTHNASOL I DDARPARIAETHAU SAFONAU MARCHNATA

#### Llaeth a chynhyrchion llaeth

- 1 Cynhyrchion sy'n dod o fewn unrhyw un neu ragor o gofnodion (a) i (f) yn y tabl yn Rhan XVI o Atodiad 1 i'r Rheoliad CMO.

#### Gwybodaeth Cychwyn

- I82** Atod. 1 para. 1 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 56(4)**  
**I83** Atod. 1 para. 1 mewn grym ar 17.10.2023 gan O.S. 2023/1092, **ergl. 2(f)**

#### Brasterau taenadwy

- 2 Cynhyrchion—  
(a) sy'n dod o fewn unrhyw un neu ragor o baragraffau (a) i (c) ym Mhwynt 1 o Ran VII o Atodiad VII i'r Rheoliad CMO, a  
(b) sydd â chynnwys braster o 10% o leiaf ond heb fod yn fwy na 90% yn ôl pwysau.

#### Gwybodaeth Cychwyn

- I84** Atod. 1 para. 2 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 56(4)**  
**I85** Atod. 1 para. 2 mewn grym ar 17.10.2023 gan O.S. 2023/1092, **ergl. 2(f)**

#### Cig eidion a chig llo

- 3 Cynhyrchion sy'n dod o fewn y tabl yn Rhan XV o Atodiad 1 i'r Rheoliad CMO, ond gan eithrio unrhyw gofnod yn y tabl ar gyfer anifeiliaid byw.

#### Gwybodaeth Cychwyn

- I86** Atod. 1 para. 3 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 56(4)**  
**I87** Atod. 1 para. 3 mewn grym ar 17.10.2023 gan O.S. 2023/1092, **ergl. 2(f)**

#### Dofednod a chig dofednod

- 4 Cynhyrchion sy'n dod o fewn y tabl yn Rhan XX o Atodiad 1 i'r Rheoliad CMO, gan gynnwys unrhyw gofnod yn y tabl ar gyfer dofednod byw.

#### Gwybodaeth Cychwyn

- I88** Atod. 1 para. 4 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 56(4)**  
**I89** Atod. 1 para. 4 mewn grym ar 17.10.2023 gan O.S. 2023/1092, **ergl. 2(f)**

*Statws Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) Act yn cynnwys darpariaethau sy'n rhagolygol.*

*Newidiadau i ddeddfwriaeth: Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 16 Ebrill 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details) View outstanding changes*

### Wyau a chynhyrchion wyau

5 Cynhyrchion sy'n dod o fewn y tabl yn Rhan XIX o Atodiad 1 i'r Rheoliad CMO.

#### Gwybodaeth Cychwyn

- I90** Atod. 1 para. 5 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 56(4)**  
**I91** Atod. 1 para. 5 mewn grym ar 17.10.2023 gan **O.S. 2023/1092, ergl. 2(f)**

### Ffrwythau a llysiau, ac eithrio olifau

6 Cynhyrchion sy'n dod o fewn y tabl yn unrhyw un neu ragor o Rannau IX i XI o Atodiad 1 i'r Rheoliad CMO.

#### Gwybodaeth Cychwyn

- I92** Atod. 1 para. 6 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 56(4)**  
**I93** Atod. 1 para. 6 mewn grym ar 17.10.2023 gan **O.S. 2023/1092, ergl. 2(f)**

### Olew olewydd ac olifau bwyta

7 Cynhyrchion sy'n dod o fewn y tabl yn Rhan VII o Atodiad 1 i'r Rheoliad CMO.

#### Gwybodaeth Cychwyn

- I94** Atod. 1 para. 7 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 56(4)**  
**I95** Atod. 1 para. 7 mewn grym ar 17.10.2023 gan **O.S. 2023/1092, ergl. 2(f)**

### Hopys

8 Cynhyrchion sy'n dod o fewn y tabl yn Rhan VI o Atodiad 1 i'r Rheoliad CMO.

#### Gwybodaeth Cychwyn

- I96** Atod. 1 para. 8 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 56(4)**  
**I97** Atod. 1 para. 8 mewn grym ar 17.10.2023 gan **O.S. 2023/1092, ergl. 2(f)**

### Gwin

9 Cynhyrchion sy'n dod o fewn y tabl yn Rhan XII o Atodiad 1 i'r Rheoliad CMO.

#### Gwybodaeth Cychwyn

- I98** Atod. 1 para. 9 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 56(4)**  
**I99** Atod. 1 para. 9 mewn grym ar 17.10.2023 gan **O.S. 2023/1092, ergl. 2(f)**

*Statws Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) Act yn cynnwys darpariaethau sy'n rhagolygol.*

*Newidiadau i ddeddfwriaeth: Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 16 Ebrill 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details) View outstanding changes*

### Gwin a bersawrwyd

- 10 Cynhyrchion sy'n dod o fewn y diffiniad o “aromatised wine products” yn Erthygl 3 o'r Rheoliad Gwin a Bersawrwyd.

#### Gwybodaeth Cychwyn

**I100** Atod. 1 para. 10 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 56(4)**

**I101** Atod. 1 para. 10 mewn grym ar 17.10.2023 gan **O.S. 2023/1092, ergl. 2(f)**

### Dehongli

- 11 Yn yr Atodlen hon, ystyr “y Rheoliad Gwin a Bersawrwyd” yw Rheoliad (EU) Rhif 251/2014 Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 26 Chwefror 2014 ar ddiffiniad, disgrifiad, cyflwyniad, labelu a gwarchod dynodiadau daearyddol cynhyrchion gwin a bersawrwyd.

#### Gwybodaeth Cychwyn

**I102** Atod. 1 para. 11 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 56(4)**

**I103** Atod. 1 para. 11 mewn grym ar 17.10.2023 gan **O.S. 2023/1092, ergl. 2(f)**

ATODLEN 2

(a gyflwynir gan adran 55)

## MÂN DDIWYGIADAU A DIWYGIADAU CANLYNIADOL ETC. SY’N YMWNEUD Â RHANNAU 1 I 3

### RHAN 1

#### DIWYGIADAU, DIDDYMIADAU AC ARBEDION SY’N YMWNEUD Â DEDDF AMAETHYDDIAETH 2020

#### Deddf Amaethyddiaeth 2020 (p. 21)

- 1 (1) Mae Deddf Amaethyddiaeth 2020 wedi ei diwygio fel a ganlyn.
- (2) Mae adran 46 (cyflwyno Atodlen 5) wedi ei diddymu.
- (3) Mae adran 47 (hyd darpariaeth o ran Cymru) wedi ei diddymu.
- (4) Yn adran 52 (diwygiadau canlyniadol), hepgorer paragraffau (b) a (d).
- (5) Yn adran 53 (pŵer i wneud darpariaeth ganlyniadol etc.)—
- (a) yn is-adran (2), hepgorer paragraffau (d), (e) ac (f);
- (b) yn is-adran (5), ym mharagraff (a), yn lle “or (d) to (f)” rhodder “, or under that subsection so far as it would have allowed the Welsh Ministers to make supplementary, incidental or consequential provision in connection with—
- (i) section 46 and Schedule 5,
- (ii) section 47, and

*Statws Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) Act yn cynnwys darpariaethau sy'n rhagolygol.*

*Newidiadau i ddeddfwriaeth: Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 16 Ebrill 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details) View outstanding changes*

- (iii) section 52 and Schedule 7 so far as applying in relation to Wales, but for the repeal of those provisions by the Agriculture (Wales) Act 2023”.
- (6) Yn adran 54 (pŵer i wneud darpariaeth drosiannol etc.), yn is-adran (2)(a), hepgorer is-baragraffau (iv), (v) a (vi).
- (7) Yn adran 56 (rhychwant), yn is-adran (1), hepgorer paragraff (g).
- (8) Yn adran 57 (cychwyn), yn is-adran (3), hepgorer paragraffau (b) ac (c).
- (9) Mae Atodlen 5 (darpariaeth sy'n ymwneud â Chymru) wedi ei diddymu.
- (10) Yn Atodlen 7 (diwygiadau canlyniadol i'r Rheoliad CMO)—
- (a) hepgorer Rhan 2;
  - (b) hepgorer Rhan 4.

#### Gwybodaeth Cychwyn

**I104** Atod. 2 para. 1(5)(b)(9) mewn grym ar 17.10.2023 at ddibenion penodedig, gweler [a. 56\(3\)\(a\)\(b\)](#)

**I105** Atod. 2 para. 1(1)-(4)(5)(a)(6)-(8)(10) mewn grym ar 17.10.2023 gan [O.S. 2023/1092](#), [ergl. 2\(g\)](#)

**I106** Atod. 2 para. 1(5)(b)(9) mewn grym ar 17.10.2023 i'r graddau nad yw eisoes mewn grym gan [O.S. 2023/1092](#), [ergl. 2\(g\)](#) (ynghyd ag [ergl. 4](#), [Atod.](#))

- 2 Er gwaethaf diddymu Atodlen 5 i Ddeddf Amaethyddiaeth 2020 gan baragraff 1, mae rheoliadau a wnaed o dan baragraff 2 o'r Atodlen honno yn parhau mewn grym, ac maent yn cael effaith fel pe baent wedi eu gwneud o dan adran 16 o'r Ddeddf hon.

#### Gwybodaeth Cychwyn

**I107** Atod. 2 para. 2 mewn grym ar 17.10.2023, gweler [a. 56\(3\)\(c\)](#)

#### Gwybodaeth Cychwyn

**I104** Atod. 2 para. 1(5)(b)(9) mewn grym ar 17.10.2023 at ddibenion penodedig, gweler [a. 56\(3\)\(a\)\(b\)](#)

**I105** Atod. 2 para. 1(1)-(4)(5)(a)(6)-(8)(10) mewn grym ar 17.10.2023 gan [O.S. 2023/1092](#), [ergl. 2\(g\)](#)

**I106** Atod. 2 para. 1(5)(b)(9) mewn grym ar 17.10.2023 i'r graddau nad yw eisoes mewn grym gan [O.S. 2023/1092](#), [ergl. 2\(g\)](#) (ynghyd ag [ergl. 4](#), [Atod.](#))

**I107** Atod. 2 para. 2 mewn grym ar 17.10.2023, gweler [a. 56\(3\)\(c\)](#)

## RHAN 2

### DIWYGIADAU I DDEDDFAU ERAILL

*Deddf yr Amgylchedd 1995 (p. 25)*

- 3 Yn adran 66 o Ddeddf yr Amgylchedd 1995, yn is-adran (7A)—
- (a) hepgorer yr “and” ar ôl paragraff (a);
  - (b) ar ddiwedd paragraff (b) mewnosoder “, and
  - “(c) the sustainable land management report published under section 6 of the Agriculture (Wales) Act 2023”.

*Statws Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) Act yn cynnwys darpariaethau sy'n rhagolygol.*

*Newidiadau i ddeddfwriaeth: Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 16 Ebrill 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details) View outstanding changes*

### Gwybodaeth Cychwyn

**I108** Atod. 2 para. 3 mewn grym ar 17.10.2023, gweler [a. 56\(3\)\(d\)](#)

### Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 (p. 37)

- 4 Yn adran 90 Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000, yn is-adran (1A)—
- (a) hepgorer yr “and” ar ôl paragraff (a);
  - (b) ar ddiwedd paragraff (b) mewnosoder “, and
  - “(c) the sustainable land management report published under section 6 of the Agriculture (Wales) Act 2023”.

### Gwybodaeth Cychwyn

**I109** Atod. 2 para. 4 mewn grym ar 17.10.2023, gweler [a. 56\(3\)\(d\)](#)

### Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (p. 5)

- 5 Yn adran 60B o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004, ar ôl is-adran (1) mewnosoder—
- “(1A) In preparing the draft Framework under subsection (1)(a), the Welsh Ministers must have regard to the most recent sustainable land management report published under section 6 of the Agriculture (Wales) Act 2023.”

### Gwybodaeth Cychwyn

**I110** Atod. 2 para. 5 mewn grym ar 17.10.2023, gweler [a. 56\(3\)\(d\)](#)

### Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 (dccc 3)

- 6 Yn adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, yn is-adran (5), ar ôl paragraff (c) mewnosoder—
- “(d) yr adroddiad rheoli tir yn gynaliadwy a gyhoeddir o dan adran 6 o Ddeddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023.”

### Gwybodaeth Cychwyn

**I111** Atod. 2 para. 6 mewn grym ar 17.10.2023, gweler [a. 56\(3\)\(d\)](#)

*Statws Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) Act yn cynnwys darpariaethau sy'n rhagolygon.*  
**Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 16 Ebrill 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details) View outstanding changes

## ATODLEN 3

(a gyflwynir gan adran 55)

## DIWYGIADAU CANLYNIADOL ETC. I'R RHEOLIAD CMO

## RHAN 1

DIWYGIADAU SY'N YMWNEUD Â PHENNOD 3 O  
RAN 2 (YMYRRAETH MEWN MARCHNADOEDD)

## Amodau eithriadol yn y farchnad

- 1 Os yw paragraff 2 o Atodlen 7 i Ddeddf Amaethyddiaeth 2020 (p. 21) mewn grym cyn y dygir y Rhan hon o'r Atodlen hon i rym, yn Rhan V o'r Rheoliad CMO (darpariaethau cyffredinol), ym mhob un o Erthyglau 219, 220, 221 a 222, ym mharagraff A2, a fewnosdir gan baragraff 2 o Atodlen 7 i Ddeddf Amaethyddiaeth 2020, hepgorer "Until the end of 2024".

## Gwybodaeth Cychwyn

**I112** Atod. 3 para. 1 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 56(4)**

**I113** Atod. 3 para. 1 mewn grym ar 17.10.2023 gan **O.S. 2023/1092, ergl. 2(h)**

- 2 Os nad yw paragraff 2 o Atodlen 7 i Ddeddf Amaethyddiaeth 2020 mewn grym cyn y dygir y Rhan hon o'r Atodlen hon i rym, yn Rhan V o'r Rheoliad CMO (darpariaethau cyffredinol), ar ddechrau pob un o Erthyglau 219, 220, 221 a 222 (ond ar ôl y diwygiad a wneir gan baragraff 1 o Atodlen 7 i Ddeddf Amaethyddiaeth 2020) mewnosoder—

"A2 This Article does not apply in relation to agricultural producers in Wales."

## Gwybodaeth Cychwyn

**I114** Atod. 3 para. 2 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 56(4)**

**I115** Atod. 3 para. 2 mewn grym ar 17.10.2023 gan **O.S. 2023/1092, ergl. 2(h)**

## Gwybodaeth Cychwyn

**I112** Atod. 3 para. 1 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 56(4)**

**I113** Atod. 3 para. 1 mewn grym ar 17.10.2023 gan **O.S. 2023/1092, ergl. 2(h)**

**I114** Atod. 3 para. 2 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 56(4)**

**I115** Atod. 3 para. 2 mewn grym ar 17.10.2023 gan **O.S. 2023/1092, ergl. 2(h)**

*Statws Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) Act yn cynnwys darpariaethau sy'n rhagolygol.*

*Newidiadau i deddfwriaeth: Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 16 Ebrill 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details) View outstanding changes*

## RHAN 2

### DIWYGIADAU SY'N YMWNEUD AG ADRAN 34 (SAFONAU MARCHNATA)

#### Safonau marchnata

3 Mae'r Rheoliad CMO wedi ei ddiwygio fel a nodir ym mharagraffau 4 i 12.

#### Gwybodaeth Cychwyn

**I116** Atod. 3 para. 3 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 56(4)**

**I117** Atod. 3 para. 3 mewn grym ar 17.10.2023 gan **O.S. 2023/1092, ergl. 2(h)**

4 Yn Erthygl 73 (safonau marchnata: cwmpas), yn lle “under paragraph 16(1) of Schedule 5 to the Agriculture Act 2020” rhodder “under section 34(1) of the Agriculture (Wales) Act 2023”.

#### Gwybodaeth Cychwyn

**I118** Atod. 3 para. 4 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 56(4)**

**I119** Atod. 3 para. 4 mewn grym ar 17.10.2023 gan **O.S. 2023/1092, ergl. 2(h)**

5 Yn Erthygl 75 (safonau marchnata: sefydlu a'r cynnwys), ym mharagraff A2, yn lle “(see paragraph 16(1) of Schedule 5 to the Agriculture Act 2020)” rhodder “(see section 34(1) of the Agriculture (Wales) Act 2023)”.

#### Gwybodaeth Cychwyn

**I120** Atod. 3 para. 5 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 56(4)**

**I121** Atod. 3 para. 5 mewn grym ar 17.10.2023 gan **O.S. 2023/1092, ergl. 2(h)**

6 Yn Erthygl 78 (diffiniadau, dynodiadau a disgrifiadau gwerthu ar gyfer sectorau a chynhyrchion penodol), ym mharagraff 7, yn lle “(see paragraph 16(1) of Schedule 5 to the Agriculture Act 2020)” rhodder “(see section 34(1) of the Agriculture (Wales) Act 2023)”.

#### Gwybodaeth Cychwyn

**I122** Atod. 3 para. 6 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 56(4)**

**I123** Atod. 3 para. 6 mewn grym ar 17.10.2023 gan **O.S. 2023/1092, ergl. 2(h)**

7 Yn Erthygl 80 (arferion gwinyddol a dulliau dadansoddi), ym mharagraff 7, yn lle “(see paragraph 16(1) of Schedule 5 to the Agriculture Act 2020)” rhodder “(see section 34(1) of the Agriculture (Wales) Act 2023)”.

#### Gwybodaeth Cychwyn

**I124** Atod. 3 para. 7 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 56(4)**

**I125** Atod. 3 para. 7 mewn grym ar 17.10.2023 gan **O.S. 2023/1092, ergl. 2(h)**



*Statws Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) Act yn cynnwys darpariaethau sy'n rhagolygol.*

*Newidiadau i ddeddfwriaeth: Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 16 Ebrill 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details) View outstanding changes*

- 8 Yn Erthygl 86 (neilltuo, diwygio a chanslo termau neilltuedig dewisol), yn lle “(see paragraph 16(1) of Schedule 5 to the Agriculture Act 2020)” rhodder “(see section 34(1) of the Agriculture (Wales) Act 2023)”.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I126** Atod. 3 para. 8 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 56(4)**

**I127** Atod. 3 para. 8 mewn grym ar 17.10.2023 gan **O.S. 2023/1092, ergl. 2(h)**

- 9 Yn Erthygl 91 (pwerau gweithredu yn unol â'r weithdrefn archwilio), yn lle “(see paragraph 16(1) of Schedule 5 to the Agriculture Act 2020)” rhodder “(see section 34(1) of the Agriculture (Wales) Act 2023)”.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I128** Atod. 3 para. 9 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 56(4)**

**I129** Atod. 3 para. 9 mewn grym ar 17.10.2023 gan **O.S. 2023/1092, ergl. 2(h)**

- 10 Yn Erthygl 119 (labelu a chyflwyniad yn y sector gwin: manylion gorfodol), ym mharagraff 3, yn lle “(see paragraph 16(1) of Schedule 5 to the Agriculture Act 2020)” rhodder “(see section 34(1) of the Agriculture (Wales) Act 2023)”.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I130** Atod. 3 para. 10 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 56(4)**

**I131** Atod. 3 para. 10 mewn grym ar 17.10.2023 gan **O.S. 2023/1092, ergl. 2(h)**

- 11 Yn Erthygl 122 (labelu a chyflwyniad yn y sector gwin: pwerau dirprwyedig), ym mharagraff A2, yn lle “(see paragraph 16(1) of Schedule 5 to the Agriculture Act 2020)” rhodder “(see section 34(1) of the Agriculture (Wales) Act 2023)”.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I132** Atod. 3 para. 11 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 56(4)**

**I133** Atod. 3 para. 11 mewn grym ar 17.10.2023 gan **O.S. 2023/1092, ergl. 2(h)**

- 12 Yn Erthygl 123 (pwerau gweithredu yn unol â'r weithdrefn archwilio), yn lle “(see paragraph 16(1) of Schedule 5 to the Agriculture Act 2020)” rhodder “(see section 34(1) of the Agriculture (Wales) Act 2023)”.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I134** Atod. 3 para. 12 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 56(4)**

**I135** Atod. 3 para. 12 mewn grym ar 17.10.2023 gan **O.S. 2023/1092, ergl. 2(h)**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I116** Atod. 3 para. 3 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 56(4)**

**I117** Atod. 3 para. 3 mewn grym ar 17.10.2023 gan **O.S. 2023/1092, ergl. 2(h)**

**I118** Atod. 3 para. 4 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 56(4)**

*Statws Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) Act yn cynnwys darpariaethau sy'n rhagolygol.*

*Newidiadau i ddeddfwriaeth: Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 16 Ebrill 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details) View outstanding changes*

- I119 [Atod. 3 para. 4](#) mewn grym ar 17.10.2023 gan [O.S. 2023/1092](#), [ergl. 2\(h\)](#)
- I120 [Atod. 3 para. 5](#) ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler [a. 56\(4\)](#)
- I121 [Atod. 3 para. 5](#) mewn grym ar 17.10.2023 gan [O.S. 2023/1092](#), [ergl. 2\(h\)](#)
- I122 [Atod. 3 para. 6](#) ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler [a. 56\(4\)](#)
- I123 [Atod. 3 para. 6](#) mewn grym ar 17.10.2023 gan [O.S. 2023/1092](#), [ergl. 2\(h\)](#)
- I124 [Atod. 3 para. 7](#) ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler [a. 56\(4\)](#)
- I125 [Atod. 3 para. 7](#) mewn grym ar 17.10.2023 gan [O.S. 2023/1092](#), [ergl. 2\(h\)](#)
- I126 [Atod. 3 para. 8](#) ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler [a. 56\(4\)](#)
- I127 [Atod. 3 para. 8](#) mewn grym ar 17.10.2023 gan [O.S. 2023/1092](#), [ergl. 2\(h\)](#)
- I128 [Atod. 3 para. 9](#) ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler [a. 56\(4\)](#)
- I129 [Atod. 3 para. 9](#) mewn grym ar 17.10.2023 gan [O.S. 2023/1092](#), [ergl. 2\(h\)](#)
- I130 [Atod. 3 para. 10](#) ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler [a. 56\(4\)](#)
- I131 [Atod. 3 para. 10](#) mewn grym ar 17.10.2023 gan [O.S. 2023/1092](#), [ergl. 2\(h\)](#)
- I132 [Atod. 3 para. 11](#) ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler [a. 56\(4\)](#)
- I133 [Atod. 3 para. 11](#) mewn grym ar 17.10.2023 gan [O.S. 2023/1092](#), [ergl. 2\(h\)](#)
- I134 [Atod. 3 para. 12](#) ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler [a. 56\(4\)](#)
- I135 [Atod. 3 para. 12](#) mewn grym ar 17.10.2023 gan [O.S. 2023/1092](#), [ergl. 2\(h\)](#)

### RHAN 3

#### DIWYGLADAU SY'N YMWNEUD AG ADRAN 35 (DOSBARTHAD CARCASAU)

##### Dosbarthiad carcasau

- 13 Mae'r Rheoliad CMO wedi ei ddiwygio fel a nodir ym mharagraffau 14 i 16.

##### Gwybodaeth Cychwyn

- I136 [Atod. 3 para. 13](#) ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler [a. 56\(4\)](#)
- I137 [Atod. 3 para. 13](#) mewn grym ar 17.10.2023 gan [O.S. 2023/1092](#), [ergl. 2\(h\)](#)

- 14 Yn Erthygl 19 (ymyrraeth gyhoeddus a chymorth ar gyfer storio preifat: pwerau dirprwyedig), ym mharagraff 6, yn lle "(see paragraph 18(1) of Schedule 5 to the Agriculture Act 2020)" rhodder "(see section 35(1) of the Agriculture (Wales) Act 2023)".

##### Gwybodaeth Cychwyn

- I138 [Atod. 3 para. 14](#) ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler [a. 56\(4\)](#)
- I139 [Atod. 3 para. 14](#) mewn grym ar 17.10.2023 gan [O.S. 2023/1092](#), [ergl. 2\(h\)](#)

- 15 Yn Erthygl 20 (ymyrraeth gyhoeddus a chymorth ar gyfer storio preifat: pwerau gweithredu yn unol â'r weithdrefn archwilio), yn y geiriau ar ôl pwynt (t), yn lle "(see paragraph 18(1) of Schedule 5 to the Agriculture Act 2020)" rhodder "(see section 35(1) of the Agriculture (Wales) Act 2023)".

##### Gwybodaeth Cychwyn

- I140 [Atod. 3 para. 15](#) ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler [a. 56\(4\)](#)
- I141 [Atod. 3 para. 15](#) mewn grym ar 17.10.2023 gan [O.S. 2023/1092](#), [ergl. 2\(h\)](#)

*Statws Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) Act yn cynnwys darpariaethau sy'n rhagolygol.*

*Newidiadau i ddeddfwriaeth: Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 16 Ebrill 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details) View outstanding changes*

- 16 Yn Erthygl 21 (ymyrraeth gyhoeddus a chymorth ar gyfer storio preifat: pwerau gweithredu eraill), yn lle “(see paragraph 18(1) of Schedule 5 to the Agriculture Act 2020)” rhodder “(see section 35(1) of the Agriculture (Wales) Act 2023)”.

#### Gwybodaeth Cychwyn

- I142 Atod. 3 para. 16 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler [a. 56\(4\)](#)  
I143 Atod. 3 para. 16 mewn grym ar 17.10.2023 gan [O.S. 2023/1092](#), [ergl. 2\(h\)](#)

#### Gwybodaeth Cychwyn

- I136 Atod. 3 para. 13 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler [a. 56\(4\)](#)  
I137 Atod. 3 para. 13 mewn grym ar 17.10.2023 gan [O.S. 2023/1092](#), [ergl. 2\(h\)](#)  
I138 Atod. 3 para. 14 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler [a. 56\(4\)](#)  
I139 Atod. 3 para. 14 mewn grym ar 17.10.2023 gan [O.S. 2023/1092](#), [ergl. 2\(h\)](#)  
I140 Atod. 3 para. 15 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler [a. 56\(4\)](#)  
I141 Atod. 3 para. 15 mewn grym ar 17.10.2023 gan [O.S. 2023/1092](#), [ergl. 2\(h\)](#)  
I142 Atod. 3 para. 16 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler [a. 56\(4\)](#)  
I143 Atod. 3 para. 16 mewn grym ar 17.10.2023 gan [O.S. 2023/1092](#), [ergl. 2\(h\)](#)

## RHAN 4

### DARPARIAETH ARBED

- 17 Mae rheoliadau a wnaed gan y Comisiwn Ewropeaidd o dan Adran 1 neu Adran 3 o Bennod 1 o Deitl 2 o'r Rheoliad CMO yn parhau i fod yn gymwys i gynhyrchion sy'n cael eu marchnata yng Nghymru, er gwaethaf y diwygiadau a wneir gan baragraffau 4 i 12.

#### Gwybodaeth Cychwyn

- I144 Atod. 3 para. 17 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler [a. 56\(4\)](#)  
I145 Atod. 3 para. 17 mewn grym ar 17.10.2023 gan [O.S. 2023/1092](#), [ergl. 2\(h\)](#)

- 18 Mae rheoliadau a wnaed gan y Comisiwn Ewropeaidd o dan—
- Erthygl 19(6) o'r Rheoliad CMO,
  - unrhyw un neu ragor o bwyntiau (p) i (t) o Erthygl 20 o'r Rheoliad CMO, neu
  - Erthygl 21 o'r Rheoliad CMO,
- yn parhau i fod yn gymwys i ladd-dai yng Nghymru, er gwaethaf y diwygiadau a wneir gan baragraffau 14 i 16.

#### Gwybodaeth Cychwyn

- I146 Atod. 3 para. 18 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler [a. 56\(4\)](#)  
I147 Atod. 3 para. 18 mewn grym ar 17.10.2023 gan [O.S. 2023/1092](#), [ergl. 2\(h\)](#)

### Statws

Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) Act yn cynnwys darpariaethau sy'n rhagolygol.

### Newidiadau i ddeddfwriaeth:

Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 16 Ebrill 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau.

[View outstanding changes](#)

#### Changes and effects yet to be applied to :

- s. 25 coming into force by [2023 asc 4 s. 56\(4\)](#)
- s. 26 coming into force by [2023 asc 4 s. 56\(4\)](#)
- s. 27 coming into force by [2023 asc 4 s. 56\(4\)](#)
- s. 28 coming into force by [2023 asc 4 s. 56\(4\)](#)
- s. 29 coming into force by [2023 asc 4 s. 56\(4\)](#)
- s. 30 coming into force by [2023 asc 4 s. 56\(4\)](#)
- s. 31 coming into force by [2023 asc 4 s. 56\(4\)](#)
- s. 32 coming into force by [2023 asc 4 s. 56\(4\)](#)
- s. 33 coming into force by [2023 asc 4 s. 56\(4\)](#)
- s. 34 coming into force by [2023 asc 4 s. 56\(4\)](#)
- s. 35 coming into force by [2023 asc 4 s. 56\(4\)](#)